Vikki ydw i, Mentor Cyflogaeth Ieuenctid ar gyfer Cymunedau Dros Waith, o fewn Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr. Rwy'n gweithio gyda phobl ifanc 16-25 oed sy'n ddi-waith ac yn byw ym Maesteg neu yng Nghaerau. Rwy'n cynnig cymorth unigol i unrhyw un sy'n chwilio am waith a/neu hyfforddiant. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys ysgrifennu CV, trefnu hyfforddiant am ddim a chymorth gyda cheisiadau am swyddi.

Oherwydd Covid-19, rwy'n gweithio gartref ar hyn o bryd ac yn cadw mewn cysylltiad â'm cyfranogwyr presennol dros y ffôn a thrwy e-bost. Mae rhai yn cwblhau hyfforddiant ar-lein o'u cartrefi ac yn defnyddio'r amser hwn i ddatblygu eu cymwysterau, mae rhai yn cael diweddariadau dyddiol am swyddi a chymorth gyda cheisiadau ar-lein, ond mae eraill nad ydyn nhw'n gallu ymgysylltu ar hyn o bryd oherwydd y cyfyngiadau symud a'r ffaith fod ysgolion ar gau: mae amgylchiadau pawb yn unigryw.

Fy nod yw dileu unrhyw rwystrau a allai fod yn eu hatal rhag cael gwaith, gallai hyn gynnwys gwella hunanhyder, ariannu gofal plant fel eu bod yn gallu mynychu cyrsiau, talu costau cludiant neu brynu unrhyw offer/cyfarpar diogelu personol y gallai fod ei angen arnyn nhw er mwyn gallu dechrau gweithio.

Mae'n amser gwallgof i ni i gyd, mae gweithio gartref a cheisio diddanu fy mhlant sy'n llawn cyffro wedi gwneud i mi sylweddoli cymaint rwy'n colli mynd i'r gwaith a sgwrsio gydag oedolion yn ddyddiol! Mae croeso i chi gysylltu a darganfod mwy am y rhaglen, (Rwyf wedi gweld digon o Peppa Pig i bara am oes!) Byddaf yn falch o gael rhywbeth i dynnu fy sylw ☺